**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF - BLWYDDYN Y CYNGOR 2024/25**

**ADRODDIAD GWAITH YMCHWIL**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU**

**Awdur: Kate Spence, Gwasanaethau Democrataidd**

**1. Cais am Waith Ymchwil**

**1.1** Ymchwilio i benderfyniad ysgolion uwchradd i wahardd y defnydd o ddyfeisiau symudol, er mwyn gwella dealltwriaeth o'r rhesymau pam fod angen i ysgolion gymryd camau gweithredu o'r fath a'r manteision a arsylwyd.

**2. YMCHWIL A GWYBODAETH**

**2.1 Cefndir**

Mae dyfeisiau symudol yn datblygu'n barhaus, a heddiw maen nhw'n cyfuno'r dechnoleg gyfrifiadurol ddiweddaraf, camerâu cydraniad uchel a mynediad at lawer iawn o wybodaeth. Mae arloesiadau parhaus yn llywio'r ffordd rydyn ni'n yn rhyngweithio â'r byd digidol. Mae dyfeisiau symudol yn cael eu hystyried yn estyniad o fywyd bob dydd, yn enwedig i bobl ifainc.

Mae presenoldeb ffonau symudol mewn ysgolion yn cyflwyno heriau sylweddol i'r amgylchedd dysgu. Mae'r dyfeisiau hyn yn aml yn arwain at darfu diangen i'r disgybl, ond gallan nhw hefyd dynnu sylw athrawon oddi wrth addysgu, gan arwain at golli cyfarwyddyd ac amharu ar y dosbarth cyfan.

Nod yr ysgol yw lleihau tarfu o'r fath a sicrhau bod disgyblion yn canolbwyntio'n llwyr ar y broses ddysgu. Trwy gyfyngu ar ffonau symudol, gall ysgolion feithrin amgylchedd sy'n annog dysgu â ffocws, heb unrhyw ymyrraeth allanol. Mae disgyblion yn fwy tebygol o gymryd rhan wirioneddol mewn rhyngweithiadau wyneb yn wyneb a gweithgareddau corfforol, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad cymdeithasol a'u lles cyffredinol. Mae'r arferion yma'n gwella iechyd meddwl disgyblion ac yn eu helpu i feithrin sgiliau a fydd o fudd iddyn nhw y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae cyfyngu ar ddyfeisiau symudol hefyd yn gwarchod disgyblion ymhellach rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â llwyfannau cymdeithasol. Unwaith eto, trwy gael gwared arnyn nhw o amgylchedd yr ysgol, mae disgyblion yn cael eu hamddiffyn yn well rhag niwed posibl tra'n mwynhau profiad ysgol mwy cytbwys a diogel.

Yn y pen draw, trwy gyfyngu ar ffonau symudol, mae modd i ysgolion greu amgylchedd mwy diogel, sydd â mwy o ffocws a thawelwch, gan ganiatáu i bob disgybl dderbyn addysg o ansawdd fel y mae'n ei haeddu.

### 2.2 Ffonau symudol mewn ysgolion: Canllawiau

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan ganllawiau anstatudol i arweinwyr ysgolion ar lunio polisïau llwyddiannus ar gyfer gwahardd defnyddio ffonau symudol drwy gydol y diwrnod ysgol, ochr yn ochr â phecyn cymorth ar gyfer cyfathrebu polisïau â rhieni a chasgliad o astudiaethau achos. Yn rhan o bolisi ymddygiad ysgol, sy’n unioni ei dyletswydd gyfreithiol a safonau lles plant, mae dealltwriaeth y dylai ysgolion roi polisi ar waith sy’n cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau symudol a thechnoleg glyfar arall drwy gydol y diwrnod ysgol.

Mae hyn yn helpu ysgolion i reoli'r defnydd o ddyfeisiau symudol, wedi'i gydbwyso â chynnal amgylchedd dysgu sy'n ddiogel ac â ffocws. Mae'r ddogfen yn cynghori ysgolion i deilwra polisïau i'w hanghenion penodol, gan unioni hyn â'u hethos a diogelwch disgyblion, ac mae'n amlinellu sut y mae modd integreiddio ffonau symudol i'r cwricwlwm. Mae'r adnodd yn cynnig cyfarwyddyd i ysgolion sy'n mabwysiadu cynlluniau Dewch â'ch Dyfais Eich Hun (BYOD) i hwyluso dysgu. Mae hefyd yn awgrymu addasu'r rheolau ar gyfer ysgolion sydd â chweched dosbarth.

Gellir cyrchu'r adnodd ar-lein llawn yma.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion, er bod y rhain wedi’u fframio’n gyffredinol o fewn polisïau addysgol a fframweithiau diogelu ehangach. Yng Nghymru, mae'r Fframwaith Cymwyseddau Digidol yn aml yn mynd i'r afael â defnyddio ffonau symudol, yn ogystal â pholisïau diogelu ysgolion, sy’n annog ysgolion i lunio canllawiau clir sydd wedi’u teilwra i’w hanghenion penodol.

Er nad oes efallai un adnodd penodol sy’n debyg i’r un a gyhoeddwyd gan Lywodraeth San Steffan, anogir ysgolion yng Nghymru i gael polisïau sy’n cydbwyso buddion addysgol technoleg â sicrhau diogelwch a lleihau achosion o darfu. Gall y polisïau hyn hefyd gynnwys ystyriaethau ynghylch diogelwch ar-lein a lles digidol, sy’n flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru yn ei hymagwedd ehangach at fyd addysg. Er mwyn cael arweiniad penodol, mae ysgolion yn aml yn cyfeirio at ddogfennau megis y Polisi Ymddygiad Ysgolion a'r "Fframwaith Ysgolion Iach” yng Nghymru.

## 3. DULLIAU YMCHWIL

Roedd y dull ymchwil yma'n cynnwys adolygiad o ganllawiau cenedlaethol a lleol ynghylch y defnydd rheoledig o ddyfeisiau symudol mewn ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ag astudiaethau achos cenedlaethol cyhoeddedig i nodi tueddiadau ac arferion gorau cyffredin. Cynhaliwyd cymhariaeth hefyd o bolisïau ysgolion lleol, gan archwilio dulliau ysgol-benodol o reoli a defnyddio dyfeisiau symudol.

Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd cyfarfod gyda Phennaeth Cyflawniad Uwchradd a Lles Cyngor Rhondda Cynon Taf i gasglu gwybodaeth gan y Gwasanaeth Addysg, gan ganolbwyntio ar ddatblygu polisi, strategaethau gweithredu, a sut mae ysgolion yn yr awdurdod yn cymharu â'i gilydd o ran cyfyngu ar ffonau symudol.

Er mwyn cael dealltwriaeth fwy manwl, cynhaliwyd astudiaeth achos o ysgol uwchradd leol. Roedd yr astudiaeth achos yma'n dilyn taith yr ysgol drwy broses ddatblygu a gweithredu ei pholisi dyfeisiau symudol, gan gynnig persbectif manwl ar yr heriau a'r llwyddiannau a wynebwyd wrth addasu'r polisi i anghenion penodol cymuned yr ysgol.

## 4. CANFYDDIADAU

### 4.1 Polisïau yn gwahardd defnyddio dyfeisiau symudol yn Ysgolion Rhondda Cynon Taf

Mae polisïau sy'n ymwneud â defnyddio dyfeisiau symudol yn ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf, fel yr amlinellir mewn dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd, wedi'u hatodi yn atodiad A. Er bod ysgolion yn gyffredinol yn cyhoeddi arferion tebyg, nid yw llwyddiant rhoi'r polisïau hyn ar waith yn ymarferol gwbl hysbys o safbwynt y gwaith ymchwil yma.

Mae ysgolion uwchradd yn Rhondda Cynon Taf i raddau helaeth yn rhannu disgwyliadau o ran defnyddio dyfeisiau symudol ar dir yr ysgol, gyda'r rhan fwyaf yn mabwysiadu polisïau llym i reoli eu defnydd.

Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gorfodi dull dim goddefgarwch, ac felly hefyd Ysgol Gyfun Cwm Rhondda, Ysgol Gymunedol Glynrhedynog ac Ysgol Gyfun Rhydywaun, lle mae disgyblion yn cael eu gwahardd rhag defnyddio dyfeisiau symudol a'u cario. Mae Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn cynghori'n gryf yn erbyn dod â dyfeisiau i'r ysgol, tra bod Ysgol Gyfun Rhydywaun yn gweithredu polisi 'o'r gât i'r gât', sy'n cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau trwy gydol y diwrnod ysgol, gan gynnwys amser egwyl a chinio, ac wrth symud rhwng gwersi. Mae Ysgol Gymunedol Glynrhedynog yn gofyn i ddisgyblion gadw eu dyfeisiau o'r golwg, a bydd unrhyw ddyfeisiau sy'n cael eu gweld yn cael eu hatafaelu. Mae'r ysgol yn ymestyn y disgwyliad hwn i staff a rhieni mewn ardaloedd cymunedol, oni bai bod angen dyfais at ddiben penodol.

Mae rhai ysgolion, fel Ysgol Gyfun Rhydywaun ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, yn caniatáu i ddisgyblion ddod â dyfeisiau i'r ysgol yn ôl disgresiwn eu rhieni, gyda'r gofyniad eu bod nhw'n cael eu cadw wedi'u diffodd ac o'r golwg. Mae Ysgol Gyfun Treorci yn cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau yn ystod gwersi ac oriau ysgol *ffurfiol*, tra bod Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio ffôn symudol yn ystod cyfnodau egwyl a chinio yn unig.

Mae ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf yn rhannu'r ddealltwriaeth bod y polisïau hyn yn cyfrannu at atal camddefnydd o ddyfeisiau, yn gwarchod lles cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion, yn lleihau achosion o darfu, ac yn lleihau risgiau o ran dwyn, difrod, a seiberfwlio. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn croesawu technoleg, maent yn cydnabod eu cyfrifoldeb o ran diogelu disgyblion a staff rhag effeithiau negyddol dyfeisiau symudol.

Yn gyffredinol, mae cosbau am dorri polisïau'n cynnwys atafaelu'r ddyfais ar y drosedd gyntaf, gyda chamau disgyblu ar gyfer achosion ailadroddus neu gynyddol. Mewn argyfwng, caniateir i ddisgyblion gysylltu â'u rhieni/gwarcheidwaid trwy'r staff.

### 4.2 Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Rhondda Cynon Taf

Dangosodd trafodaeth gyda Phennaeth Llwyddiant Uwchradd a Lles Cyngor Rhondda Cynon Taf, a ategwyd gan dystiolaeth anecdotaidd o ymweliadau ag ysgolion, duedd

gynyddol ymhlith ysgolion uwchradd i reoleiddio'r defnydd o ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r mesur yma'n cael ei yrru'n bennaf gan gyfraddau gwahardd cynyddol, gyda rhai ohonynt yn ymwneud â chamddefnyddio dyfeisiau symudol. Yn benodol, mae cynnydd mewn digwyddiadau sydd wedi'u recordio o fewn amgylchedd yr ysgol wedi arwain at oblygiadau mewnol ac allanol.

Er nad oes unrhyw fandad cenedlaethol na lleol yng Nghymru i wahardd ffonau symudol ar hyn o bryd, mae penderfyniadau ynghylch eu rheoleiddio yn parhau i fod yn ôl disgresiwn arweinwyr ysgolion. Argymhellir bod ysgolion yn ymgynghori â disgyblion, rhieni a staff wrth weithredu polisïau o'r fath. Cynghorir ysgolion sy'n mabwysiadu cyfyngiadau ar ffonau i roi agwedd bwyllog, gyda nifer o gamau, ar waith - yn ogystal â pholisi clir. Mae ysgolion yn yr awdurdod lleol yn gwasanaethu cymunedau amrywiol, a gallai polisi cyffredinol o ran defnyddio dyfeisiau symudol arwain at ddryswch. Mae'n hanfodol i arweinwyr yr ysgolion deilwra polisïau yn seiliedig ar anghenion eu cymunedau penodol, gan eu cynnwys yn y broses wneud penderfyniadau.

Er gwaethaf disgwyliadau, ni welwyd unrhyw wahaniaeth mewn perchnogaeth dyfeisiau symudol rhwng ardaloedd o amddifadedd uchel a chyfoeth. Cafodd hyn ei nodi yn ystod arolwg a gynhaliwyd yn ystod pandemig Covid-19.

Mae'n ymddangos bod arweinyddiaeth gref yn yr ysgolion yn dylanwadu ar lwyddiant y mentrau yma. Mewn un achos, gwelodd ysgol gwymp sylweddol yn nifer y digwyddiadau, newidiodd hyn o 30-40 y dydd yn syth ar ôl rhoi'r polisi ar waith, i ddim ond 2-3 achos o fewn pythefnos o gyflwyno'r polisi. Mae arsylwadau hefyd yn dangos newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad, er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd mwy o ran mewn sgyrsiau wyneb yn wyneb yn hytrach na chanolbwyntio ar eu dyfeisiau yn ystod cyfnodau rhwng gwersi. Mae cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau wedi bod yn allweddol o ran gwella ymgysylltiad disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai a oedd yn cael trafferth wrth gymryd rhan mewn dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Er nad yw'r arsylwadau hyn yn rhoi darlun o'r sefyllfa ym mhob ysgol, mae tuedd gyffredinol o ran llai o ddigwyddiadau a mwy o dawelwch meddwl i staff. Mae gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol mewn ysgolion yn parhau i gael ei fonitro'n agos, oherwydd gall rhannu cynnwys yn gyflym arwain at ddisgyblion yn cael eu dwyn i gyfrif am eu hymddygiad ar-lein. Mae dylanwad materion cymunedol ar amgylcheddau ysgol wedi lleihau ond, nid yw wedi'i ddileu'n llwyr. Serch hynny, mae cyfraddau gwahardd ar gyfer digwyddiadau difrifol sydd â'r potensial i ledaenu'n gyflym ar-lein ('viral') wedi gostwng.

Mae technoleg yn parhau i fod yn arf allweddol mewn addysg uwchradd. Mae'r gwaith o integreiddio dyfeisiau symudol i arferion ysgol, fel arolygon lles dyddiol, yn dibynnu i raddau helaeth ar arweinyddiaeth ysgol. Anogir ysgolion i reoli'r defnydd o ddyfeisiau symudol yn effeithiol, yn enwedig at ddibenion lles, er mwyn osgoi camddefnydd.

Mae ysgolion yn argymell bod rhieni yn ymatal rhag cyfathrebu'n uniongyrchol â disgyblion yn ystod oriau ysgol oherwydd bod modd i hyn waethygu sefyllfaoedd. Yn lle hynny, mae ysgolion yn cynghori rhieni i ymgysylltu â staff, gan fod gan ysgolion amryw o sianeli cyfathrebu ar waith at y diben yma. Mae modd trefnu diweddariadau rheolaidd i ddisgyblion drwy garfan reoli'r ysgol.

I gloi, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall rheoleiddio'r defnydd o ffonau symudol arwain at ostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau aflonyddgar, ac mae llawer o arweinwyr ysgol yn ei ystyried yn gam buddiol. Byddai polisi cenedlaethol i arwain ar reoli'r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion yn fuddiol, er y byddai angen iddo fod

yn hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol ein cymunedau gwahanol. Byddai modd i ddull gweithredu safonol yn cael ei ddehongli'n wahanol yn dibynnu ar gyd-destunau lleol.

### 4.3 Manteision a arsylwyd o astudiaethau achos a gyhoeddwyd yn genedlaethol

Yn rhan o adnodd cenedlaethol gan Lywodraeth San Steffan, cyhoeddwyd cyfres o astudiaethau achos a gellir bwrw golwg arnyn nhw yma <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65cf77340f4eb10011a98191/Mobile_phones_in_schools_-_case_studies.pdf>. Mae'r rhain yn dyfynnu'r manteision a grybwyllir isod o ran gweithredu polisi o'r fath.

Mae datblygu polisi i wahardd y defnydd o ffonau symudol wedi bod yn hynod effeithiol wrth greu amgylchedd dysgu diogel â ffocws. Gyda disgyblion yn deall y polisi, ychydig iawn o achosion o darfu oherwydd ffonau symudol sy'n codi, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymatal rhag ceisio eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol. Mae gwahardd y defnydd o ffonau yn helpu i amddiffyn disgyblion rhag ymyriadau fel seiberfwlio, cynnwys amhriodol, a rhyngweithiadau niweidiol ar-lein. Mae’r cyfyngiad yma hefyd yn meithrin awyrgylch tawelach ar gyfer dysgu, gan alluogi disgyblion a staff i ganolbwyntio. Yn ogystal â hynny, anogir disgyblion i ryngweithio’n gymdeithasol wyneb yn wyneb, gan atgyfnerthu perthnasoedd a gwella medrau cyfathrebu. Mae gosod y polisïau yma wedi cyfrannu at ddiwylliant ysgol mwy diogel a hapus, gyda pherthnasau gwell rhwng disgyblion a staff, gan gyfoethogi’r profiad ysgol cyffredinol.

### 4.4 Astudiaeth Achos – Polisi dyfeisiau symudol diwygiedig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun

Ar ddiwedd tymor yr hydref 2024/25, cynigiodd Mr H Voyle o Ysgol Gyfun Rhydywaun y disgrifiad isod o ddatblygiad a gweithrediad polisi dyfeisiau symudol yr ysgol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cynorthwyol, Mr H Voyle, yn ôl at ddwy flynedd ynghynt lle'r oedd angen adolygu polisi dyfeisiau symudol Ysgol Gyfun Rhydywaun. Roedd y polisi yn caniatáu meddu ar ddyfeisiau ar dir yr ysgol, ond yn gwahardd disgyblion rhag eu defnyddio. Byddai disgyblion yn derbyn rhybudd yn gyntaf pe baent yn cael eu dal yn defnyddio eu dyfais, ac yna byddai'r ddyfais yn cael ei hatafaelu mewn achosion ailadroddus. Roedd hi'n anodd gweithredu'r polisi gan na chofnodwyd rhybuddion, gan arwain at anghysondebau wrth gyflwyno cosbau. Arweiniodd y ffaith nad oedd modd gorfodi’r polisi yma’n gyson at sawl her:

Cynnydd mewn Digwyddiadau: Cyfrannodd y camddefnydd o ddyfeisiau symudol at wrthdaro rhwng disgyblion, gan ddeillio o’r ysgol a’r gymuned ehangach. Priodolwyd hyn i hygyrchedd cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau cyfathrebu.

Pryderon o ran Diogelu: Mae’r gallu i dynnu a rhannu lluniau a fideos yn peri pryderon sylweddol o ran diogelu disgyblion a staff.

**Problemau'n Gwaethygu: Mae digwyddiadau'n cael eu cam-gyfleu i rieni neu warcheidwaid, sydd weithiau'n gwaethygu'r gwrthdaro yn ddiangen.**

**Gwaith ymchwil a chynnig**

I fynd i'r afael â'r mater, dechreuodd y Pennaeth Cynorthwyol gyflawni gwaith ymchwil, gan ddyfynnu'r adnoddau a restrir isod.

Canllawiau Llywodraeth y DU ar Ffonau Symudol mewn Ysgolion
Adroddiadau Arolwg Cenedlaethol o Ymddygiad
Adroddiad Ofcom ar Ddefnydd ac Agweddau Plant o'r Cyfryngau
“Stolen Focus” gan Johann Hari (Awdur)
Bwlio ar-lein yng Nghymru a Lloegr

Yn ogystal â'r gwaith ymchwil, cynigiwyd parhau i ganiatáu dyfeisiau symudol ar dir yr ysgol, gyda'r amod eu bod yn cael eu diffodd wrth ddod i mewn i'r ysgol,. Nodwyd y bydden nhw'n cael eu hatafaelu gan unrhyw ddisgybl sy'n cael ei weld yn eu defnyddio ar yr achlysur cyntaf un. Ni fyddai disgyblion yn cael eu cosbi am y drosedd, ar wahân i gael eu dyfais wedi'i hatafaelu am y diwrnod. Byddai tair trosedd mewn wythnos yn arwain at alwad ffôn gartref gan y Pennaeth Blwyddyn cyfrifol.

**Ymgynghori a gweithredu**

Ymgynghorwyd gyda'r rhieni a'r cyngor ysgol. Ymatebodd tua 25% o rieni, gyda 65% o'r rheiny o blaid y polisi arfaethedig. Ymhlith y 35% a anghytunodd, roedd diffyg eglurder gan lawer o ran telerau'r polisi. Cysylltodd yr ysgol â'r rhieni a oedd yn mynegi pryderon, gan eu gwahodd am sgwrs ynghylch y mater a chynnig sicrwydd. Roedd adborth y cyngor ysgol yn gadarnhaol ar y cyfan.

Rhoddwyd y polisi diwygiedig ar waith yn ystod tymor yr haf ym mlwyddyn academaidd 2023/4 ac roedd y gwaith o’i gyflwyno yn llwyddiant o ganlyniad i gydymffurfiaeth aruthrol disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun. O ganlyniad i hyn, arsylwodd yr ysgol nifer o welliannau:

- **Llai o ddefnydd o ddyfeisiau symudol**: Anaml y gwelir diffyg cydymffurfio, ac ar y cyfan, ni welir dyfeisiau symudol yn ystod y diwrnod ysgol.
- **Llai o wrthdaro**: Arweiniodd y polisi at lai o wrthdaro rhwng disgyblion, yn ogystal â chyfathrebu a chydweithio gwell.
- **Lles gwell**: Roedd gwelliant yn lles corfforol y disgyblion ac yn amgylchedd cyffredinol yr ysgol.

Er bod gwrthdaro sy'n ymwneud â dyfeisiau symudol sy'n tarddu o'r gymuned yn dal i amharu ar fywyd ysgol o bryd i'w gilydd, mae'r polisi wedi llwyddo i gadw materion o'r fath o fewn yr ysgol dan reolaeth. Mae’r ysgol wedi rhoi camau ar waith i fynd i’r afael â phryderon rhieni trwy sicrhau bod modd i ddisgyblion gysylltu â’r cartref bob amser os oes angen, ac mae rhieni’n cael eu hysbysu’n rheolaidd am themâu sy’n dod i’r amlwg a risgiau posibl yn ymwneud â chamddefnyddio dyfeisiau symudol yn ystod nosweithiau rhieni.

**Prif Ganfyddiadau**

**Ymdrech Tu ôl i'r Llenni:** Mae modd priodoli gweithrediad llwyddiannus y polisi i waith cynllunio gofalus ac ymdrechion i ragweld heriau. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol fod yr ysgol yn fwy na pharod i fynd i'r afael â'r drefn, ac roedd hyn wedi annog y disgyblion i ddilyn y cyfarwyddyd hefyd.

**Cysondeb**: Roedd ymagwedd glir a chyson o ran cosbau yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y polisi.

**Cymorth i'r Gymuned:** Roedd rhan fwyaf o'r rhieni'n cefnogi'r polisi newydd ar ôl iddyn nhw ei ddeall yn llawn, a pharhaodd yr ysgol i ymgysylltu â'r rhai oedd â phryderon.

**Parodrwydd i Addasu:** Er nad oes angen newid y polisi, mae'r ysgol yn parhau i fod yn agored i addasiadau os bydd materion yn codi yn y dyfodol.

**Casgliad**

Mae'r polisi dyfeisiau symudol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun wedi'i weithredu'n llwyddiannus, gyda chanlyniadau cadarnhaol o ran lleihau gwrthdaro a gwella ymddygiad y disgyblion. Trwy waith ymchwil gofalus, ymgynghori, a chyfathrebu clir, mae'r ysgol wedi creu fframwaith sy'n cydbwyso'r ôl troed digidol gyda materion diogelu a lles. Mae'r ysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal y polisi yma a bydd yn parhau i fonitro ei effeithiolrwydd, yn barod i'w addasu yn ôl yr angen.

## 5 CASGLIAD

I gloi, mae'r adroddiad yma ar yr angen i reoli dyfeisiau symudol mewn ysgolion yn amlygu nifer o ffactorau allweddol o ran llunio polisi'n llwyddiannus. Mae neilltuo digon o amser ar gyfer creu polisïau, ymgynghori arnyn nhw a'u gweithredu yn hollbwysig, fel y dangoswyd gan astudiaeth achos genedlaethol lle arweiniodd y defnydd o bolisi cyson at ragor o ddisgyblion a staff yn derbyn y rheolau dan sylw. Mae modd i gyflwyno datrysiadau ymarferol, megis loceri gyda phwyntiau gwefru fel bod disgyblion yn gadael yr ysgol gyda dyfeisiau wedi'u gwefru'n llawn, yn helpu i hwyluso trosglwyddiadau a darparu cymhellion, gan atgyfnerthu buddion y polisi tra'n hyrwyddo newidiadau ymddygiad cadarnhaol. Dros amser, mae ysgolion sydd wedi cynllunio ac addasu eu polisïau yn drylwyr, fel Ysgol Gyfun Rhydywaun, wedi gweld newid yn niwylliant yr ysgol, gan wneud gorfodaeth yn llai heriol.

Mae'n bwysig i ysgolion fod yn hyblyg, gan gydnabod yr angen am addasiadau rhesymol mewn amgylchiadau eithriadol, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth penodol. Mae hyn yn cynnwys bod yn barod i addasu polisïau yn seiliedig ar anghenion unigol, megis rhai disgyblion chweched dosbarth, a bod yn effro i argymhellion proffesiynol wrth wneud eithriadau.

Mae ymddiriedaeth rhieni yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y polisïau dyfeisiau symudol. Mae sicrhau bod rhieni'n deall bod modd iddyn nhw gysylltu â'r ysgol mewn argyfwng, a bod gan yr ysgol adnoddau allgymorth ar gael, yn meithrin perthynas gefnogol. Mae cyfathrebu cyson, yn enwedig o ran diogelwch ar-lein trwy gylchlythyrau ac achlysuron yn yr ysgol, yn atgyfnerthu'r ymddiriedaeth yma ac yn helpu rhieni i annog arferion diogel yn y cartref.

Er gwaethaf absenoldeb cyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru, mae cyfle amlwg i ysgolion rannu adnoddau, profiadau ac arferion gorau. Mae modd i ysgolion uwchradd, a hyd yn oed ysgolion cynradd, gydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin sy'n ymwneud â defnyddio dyfeisiau symudol a diogelwch ar-lein, gan roi modelau llwyddiannus ar waith yn yr un modd ag Ysgol Gyfun Rhydywaun.

Yn olaf, dylai polisi ar ddyfeisiau symudol fynd y tu hwnt i waharddiad, gan ymgorffori addysg ehangach ar gyfrifoldebau digidol. Dylai ysgolion barhau i addysgu disgyblion a rhieni am bwysigrwydd defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel, diogelwch ar-lein, a'r cyfrifoldebau sydd gan ddisgyblion o ran amddiffyn eu hunain yn y byd digidol. Trwy integreiddio'r gwersi yma i'r cwricwlwm a chefnogi teuluoedd trwy ddiweddariadau a chyngor rheolaidd, mae modd i ysgolion greu dull mwy cynhwysfawr o ddiogelu lles eu disgyblion mewn amgylcheddau ffisegol ac ar-lein fel ei gilydd.

**Atodiad A: Polisïau dyfeisiau symudol Ysgolion Uwchradd Rhondda Cynon Taf.**

Mae'r tabl isod yn rhoi dolenni i'r polisïau dyfeisiau symudol sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf. Lle nad oes polisi pwrpasol o'r fath ar gael, mae hyn naill ai wedi'i nodi isod, neu mae'r ddolen yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr adran berthnasol o'r dudalen we sy'n amlinellu egwyddorion yr ysgol ar ddyfeisiau symudol.

| Enw'r Ysgol | Dolen i'r Polisi |
|---|---|
| Ysgol Gymuned Aberdâr | Dolen gyswllt i'r polisi: |
| Ysgol Gyfun Bryncelynnog | Dolen gyswllt i'r polisi: |
| Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain | Dolen gyswllt i'r polisi: |
| Ysgol Gyfun Cwm Rhondda | Dolen gyswllt i'r polisi: |
| **Ysgol Gymuned Glynrhedynog** | Dolen gyswllt i'r polisi: |
| **Ysgol Gyfun Aberpennar** | Tudalen we yn cael ei chreu ar hyn o bryd |
| **Ysgol Gyfun Rhydywaun** | Dolen gyswllt i'r polisi: |
| **Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru** | Dim dolen i'r polisi ar wefan yr ysgol |
| **Ysgol Gyfun Treorci** | Dolen gyswllt i'r polisi: |
| Ysgol Gyfun Y Pant | Dim dolen i'r polisi ar wefan yr ysgol |